# Canllaw ar Hysbysiadau Preifatrwydd o dan y GDPR

**Manylion adnabod a chyswllt y rheolydd data**
Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheolydd data ac mae'n ymroddedig i amddiffyn hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

**Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data**
Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data y gallwch gysylltu ag ef drwy anfon e-bost at dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu drwy ffonio 0300 065 3000.

**Pa wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi?**
Rydym yn casglu data personol enwau, teitlau swyddi, sefydliad (os yw'n berthnasol) a chyfeiriad/cyfeiriadau e-bost er mwyn cynnal ein Grŵp Rhanddeiliaid.

**Sut fydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**
Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i wneud y canlynol:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y system trwyddedu morol,
- gofyn am dystiolaeth i gefnogi gwelliannau i'r system trwyddedu morol
- ymgynghori â chi, yn ôl yr angen ynghylch y system trwyddedu morol.

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru.

**Beth yw'n sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?**

Rydym yn cadw eich data personol yn unol ag Erthygl 6 GDPR - *Mae gwrthrych y data wedi rhoi cydsyniad inni brosesu ei ddata yn dilyn ymateb i wahoddiad i ymuno â'r grŵp rhanddeiliaid.*

**Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?**

Bydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio’n unig gan staff CNC ar gyfer y diben a nodwyd a bydd yn cael ei rannu ag adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru i hwyluso’r un diben.

## Unrhyw drosglwyddo i drydydd gwledydd a'r mesurau diogelu sydd ar waith

Ni fydd y data’n cael ei drosglwyddo y tu allan i’r UE.

## Am ba hyd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?

Byddwn yn cadw eich data ac yn ei ddefnyddio nes y byddwch yn dweud wrthym nad ydych eisiau derbyn rhagor o wybodaeth gan CNC.

Byddwn yn anfon e-bost i’n holl gysylltiadau yn flynyddol i roi’r cynnig ichi optio allan o dderbyn gwybodaeth gennym.

## Beth yw hawliau'r unigolyn?

**Mae gennych hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, i wrthwynebu i brosesu eich gwybodaeth bersonol, ac i gywiro, dileu, cyfyngu a chludo eich gwybodaeth bersonol. Ewch i'r tudalennau Diogelu Data ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau.**

Dylai unrhyw geisiadau neu wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru: -

**E-bost– dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**Swyddog Diogelu Data**
**Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Maes y Ffynnon**
**Ffordd Penrhos**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2DW**

## Diogelwch eich gwybodaeth

Mae eich data’n cael ei gadw ar systemau diogel CNC.

## Sut i wneud cwyn

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: -

**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office**
**Wycliffe House**
**Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5AF**

**www.ico.org.uk**